



Sut gall technoleg
gynorthwyo adborth llafar, a
chael effaith ar faich gwaith
athrawon a dysgu disgyblion
mewn ysgol ar gyfer plant
3-16 mlwydd oed?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales



ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working



Gwnaeth staff a disgyblion Ysgol Bae Baglan, ysgol ‘ddilyniannol’ ar gyfer plant 3-16 mlwydd oed, wedi’i lleoli yng Nghastell-nedd, Port Talbot, archwilio’r defnydd a wneir o dechnolegau i gynorthwyo strategaethau asesu ffurfiannol. Eu ffocws penodol oedd datblygu strategaethau adborth llafar effeithiol.

Mae ymchwil yn cydnabod pwysigrwydd rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion, a bod hi’n hanfodol eu bod nhw’n chwarae rhan weithredol yn y broses ddysgu. Mae technolegau digidol yn chwarae rôl allweddol yn yr addysgu a’r dysgu sy’n digwydd yn Ysgol Bae Baglan, ac mae gan bob athro gyfrifiadur Surface Pro. Penderfynodd yr ysgol i ganolbwyntio ar ddatblygu mecanweithiau ar gyfer darparu adborth llafar effeithiol gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Gwnaeth athrawon pob pwnc ddefnydd o’r nodiadur cydweithredol digidol ‘OneNote’ (rhan o’r gyfres Microsoft Office 365). Ar gyfer diben yr ymchwil gweithredol hwn, llwythodd disgyblion Blwyddyn 5 hyd at flwyddyn 10 eu gwaith i fyny i OneNote, gan alluogi athrawon i gofnodi eu hadborth, wedi’i bersonoli, arno, gan ddefnyddio rhaglen o’r enw Office Mix.

‘Yr arf addysgol mwyaf grymus ar gyfer gwella cyrhaeddiad a pharatoi plant i fod yn ddysgwyr gydol oes, mewn unrhyw gyd-destun, yw asesu ffurfiannol’ (Clarke, 2017:3)

Amcanion

Roedd yr ysgol am archwilio effaith adborth llafar ar faich gwaith athrawon ac ar ymgysylltu’r dysgwyr â’u dysgu eu hunain. Roeddent hefyd am archwilio buddion defnyddio technoleg ar gyfer darparu’r adborth hwn.

Beth ddywedodd y dysgwyr?

Ar ddechrau’r astudiaeth, dim ond 34% o’r disgyblion a ofynnwyd dywedodd eu bod nhw’n teimlo’n gyfforddus ynglŷn â derbyn adborth a gynorthwyr gan TGCh. Roeddent yn ansicr ynglŷn â sut i gael at, deall ac ailymweld ag adborth a ddarperir yn y fformat hwn. Roedd adborth llafar, yn wahanol i sylwadau ysgrifenedig, yn newydd iddynt, ac felly, roeddent yn teimlo’n ansicr am ei werth.

Erbyn diwedd yr astudiaeth, adroddwyd gan 70% o’r disgyblion o bob oedran eu bod nhw’n hapus i dderbyn adborth llafar. Roeddent yn hapus am fod yr adborth yn dangos iddynt yn glir yr hyn sydd angen iddynt fynd i’r afael ag ef. Teimlwyd hefyd fod adborth llafar yn bersonol iddyn nhw a bod elfen bersonoli’r adborth yn fwy amlwg pan fo’r adborth yn adborth llafar, o gymharu ag adborth ysgrifenedig.

‘Mae’r athrawon wrth siarad â mi yn siarad amdanaf i’

‘Mae’r adborth yn fy helpu i ddeall sut y mae rhaid i mi wella’.

Roedd disgyblion hŷn, yn enwedig, hefyd yn bositif am dderbyn adborth llafar drwy gyfrwng technoleg am fod hyn yn eu galluogi i ailymweld â, ac adolygu’r sylwadau. Dyna oedd mantais ganfyddedig defnyddio technoleg – bod y sylwadau yn cael eu cipio. Roedd myfyrwyr Astudiaethau Busnes yn enwedig o bositif am adborth digidol.

‘Bydd dysgwyr yn defnyddio dulliau cyfathrebu electronig ac yn gwybod p’un yw’r mwyaf effeithiol’ (Fframwaith Cymhwysedd Digidol, Cymru 2016)

Beth ddywedodd yr athrawon?


Cyn cynnal yr astudiaeth, gwnaeth athrawon adrodd eu bod nhw, fel arfer, yn treulio 7-15 awr bob wythnos yn marcio. Teimlwyd gan yr athrawon i gyd eu bod nhw’n treulio gormod o amser yn cwblhau eu marcio. Nid oedd yr athrawon i gyd yn teimlo’n hyderus am eu sgiliau TGCh personol ar ddechrau’r astudiaeth, a gwnaethant dybio a fyddai amcanion y prosiect yn her iddynt.

Yn ystod yr astudiaeth, gwnaeth yr athrawon fwynhau’r cyfle i siarad yn fanwl â’r myfyrwyr am eu dysgu. Gwelwyd adborth llafar yn rhywbeth mwy anffurfiol ac yn fwy personol - a theimlwyd bod hyn yn rhywbeth cadarnhaol. Teimlodd yr athrawon fod y broses adborth llafar yn ‘agor deialog rhyngddyn nhw â’r plentyn’. Mewn rhai achosion, gwnaeth hyn helpu i feithrin perthnasau gwell gydag unigolion a wnaeth ymestyn y tu hwnt i gyd-destun y wers.

Teimlwyd hefyd gan yr athrawon fod eu baich gwaith yn fwy hydrin a bod eu sgiliau TGCh wedi gwella o ganlyniad yr astudiaeth.

‘Mae disgyblion yn gwneud gwell synnwyr o adborth llafar oherwydd gallaf esbonio pwynt gan bwysleisio rhai agweddau yn fwy clir na thrwy roi sylwadau ysgrifenedig. Gallaf ddangos iddynt yn union yr hyn yr wyf yn ei feddwl, ac mae hynny’n beth grymus’.

‘Adborth yw’r wybodaeth a roddir i’r dysgwr ac / neu’r athro am berfformiad y dysgwr o ran y nodau dysgu, sydd yna, yn ailgyfeirio neu yn ail-ganolbwyntio’r gweithredoedd er mwyn cyflawni’r nod’ (adroddiad y Sutton Trust (2011)).



Beth oedd yn arbennig o gofiadwy?

Roedd y brwdfrydedd a ddangosodd y disgyblion at yr ymagwedd bersonol sy’n gysylltiedig ag adborth werth ei nodi. Gwnaeth y ffaith bod athrawon yn defnyddio eu henwau wrth gofnodi’r adborth wneud argraff fawr arnynt, oherwydd ychwanegodd hyn ryw naws bersonol at y sylwadau.

Drwy ddangos sut i farcio a chofnodi adborth gan ddefnyddio OneNote, gwnaeth un athro hwyluso trosglwyddo gwybodaeth o fewn yr ysgol gyfan, ac roedd hyn o les i’r tîm ymchwil, athrawon eraill a’r disgyblion yn ogystal.

Beth oedd y prif heriau?

Roedd cyrchu adborth yn dibynnu ar y ffaith bod y disgyblion ar-lein, a dywedodd rhai o’r disgyblion hŷn y gallai hyn fod yn dipyn o her pan nad oeddent yn yr ysgol ond roeddent am ailymweld â’r adborth.

Roedd dod o hyd i sylwadau penodol yn fwy o her pan oedd y darnau o waith yn rhai hirion – yn annhebyg i gyfres o sylwadau ysgrifenedig lle y gellid ei sganio, mae cael at sylwadau llafar penodol yn golygu gwrandao ar yr holl ddarn o adborth eto. Felly, awgrymodd y disgyblion hŷn fod adborth llafar yn gweithio orau ar ddarnau byrion o waith neu fel crynodeb cyffredinol sy’n gysylltiedig â’r sylwadau ysgrifenedig byrion a geir drwy’r gwaith cyfan.

Ffeithiau allweddol

Lleolir Ysgol Bae Baglan yn Aberafan, un o ardaloedd Port Talbot. Mae ganddi 1500 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae gan ryw 25% ohonynt yr hawl i gael prydau am ddim yn yr ysgol. Cydnabyddir bod gan ryw 35% o’r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Gwnaeth y prosiect hwn gynnwys 6 aelod o staff, un ohonynt yn addysgu’r plant cyfnod cynradd a 5 ohonynt yn addysgu plant cyfnod uwchradd yr ysgol, yn ogystal â 130 o ddisgyblion Blynnyddoedd 5-10.

- Defnyddiodd Blwyddyn 5 y strategaeth adborth ar draws ystod o destunau.
- Defnyddiodd Blwyddyn 9 yr ymagwedd hon ar gyfer TGCh, Hanes, Gwyddoniaeth a Mathemateg, a chawsant fynediad at eu dyfeisiau eu hunain drwy gydol y diwrnod ysgol.
- Defnyddiodd Blwyddyn 10 y prosiect ar gyfer Astudiaethau Busnes.

Defnyddiodd athrawon Office Mix (meddalwedd ychwanegol i’w defnyddio gyda PowerPoint) i gofnodi eu hadborth, a gwnaethant ei lwytho i fyny i OneNote, gan roi i’r disgyblion y cyfle i gael at yr adborth ar unwaith.



Crynodeb

Er bod angen i athrawon ddangos rhywfaint o farcio gwaith ysgrifenedig, mae ymchwil yn dangos mai'r adborth mwyaf effeithiol yw'r math a roddir ar unwaith ac sy'n gwneud prosesau 'anweladwy' yn weladwy.

Yn Ysgol Bae Baglan, gwnaeth symud o ddefnyddio sylwadau ysgrifenedig manwl, a defnyddio yn eu lle adborth llafar gan ddefnyddio technoleg, leihau baich gwaith yr athrawon, a helpu disgyblion i deimlo bod yr adborth yn bersonol i'w hanghenion fel unigolion.

Un o gryfderau'r ymagwedd hon oedd ei hyblygrwydd o safbwynt yr athrawon a hefyd y disgyblion. Gellid addasu'r adborth digidol ar gyfer y gofynion gwahanol a oedd gan athrawon ledled yr ysgol - pe bai'r rhain yn ymwneud ag oedran a chyfnod datblygiad y disgyblion, neu'r pynciau a oedd yn cael eu haddysgu.

Defnyddiodd athrawon gwahanol yr ymagwedd adborth mewn ffyrdd gwahanol. Er hynny, teimlodd pawb yn bositif am y broses.

Argymhellion

- Dylid ymgorffori cyfleoedd ar gyfer rhoi adborth llafar o fewn repertoire o brosesau adborth.
- Mae angen cyfle ar athrawon a disgyblion i archwilio'r posibiliadau y gallai technoleg eu darparu o ran adborth llafar, er enghraifft, rhai sy'n ymwneud â phersonoli adborth.
- Mae hefyd angen amser ar athrawon i adfyfrio ar yr adegau hynny pan nad technoleg yw'r ffordd orau o roi adborth llafar, er enghraifft, wrth roi adborth ar ddarnau o waith hir iawn.
- Mae angen sefydlu systemau ar gyfer rhannu arfer da er mwyn cynorthwyo'r athrawon a'r dysgwyr hynny y mae defnyddio technoleg i gynorthwyo adborth yn newydd iddynt.

Cyfeiriadau

Clarke, S. (2017) *Outstanding Formative Assessment: Culture and Practice* London: Hodder Education

Sutton Trust (2011) Teaching and Learning Toolkit accessed from <https://educationendowmentfoundation.org.uk/resources/teaching-learning-toolkit>

Am fwy o wybodaeth gan yr athrawon a myfyrwyr gweler y linc sy'n ddilyn:

https://www.youtube.com/playlist?list=PLzs6uGJJD_F8irHLpXJu5bGPT2ZPzwotK

Awduron yr adroddiad hwn: Dr Helen Lewis, Mrs Sian Brooks a Ms Diane Thomas, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

